| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **8 GORFFENNAF 2024** |
| TEITL: | **PERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2023/24** |
| PWRPAS: | **I HYSBYSU AELODAU'R BWRDD O BERFFORMIAD BUDDSODDIADAU'R GRONFA BENSIWN** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI'R WYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |


## 1. Cyflwyniad

Mae perfformiad buddsoddi'r rheolwyr asedau unigol yn cael ei fonitro gan y Panel Buddsoddi yn chwarterol. Mae'r rheolwyr asedau yn cael gwahoddiad i gyflwyno i'r Panel yn eu tro.

Tra bod monitro chwarterol a blynyddol yn cymryd lle, dylid nodi mai dychweliadau'r gronfa bensiwn dros y tymor hir yw'r nod, ac mae'n anochel bydd ychydig o amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, a pherfformiad yn fwy cyfnewidiol o chwarter i chwarter. Yn gyffredinol, mae perfformiad rheolwyr asedau unigol yn cael eu hasesu dros 3 blynedd.

## 2. Gwerth Marchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dangosir gwerth marchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd dros y blynyddoedd diwethaf yn y graff isod:




Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa iach gyda gwerth y gronfa yn cynyddu'n raddol dros amser. Ar 31 Mawrth 2024, gwerth marchnadol y Gronfa Bensiwn oedd £3,070 miliwn.

## 3. Perfformiad Buddsoddi y Gronfa Bensiwn yn 2023/24

Dangosir perfformiad y gronfa yn erbyn y meincnod yn y tabl isod:

| | 3 Mis % | Blwyddyn % |
|---|---|---|
| Cronfa | 4.7 | 11.2 |
| Meincnod | 4.6 | 11.4 |
| **Perfformiad Cymharol** | **+0.1** | **-0.2** |

Gwelodd y Gronfa enillion cadarnhaol dros gyfnodau o 3 mis a blwyddyn. Roedd y dychweliad cyfartalog ar gyfer cronfeydd CPLlL yn 9.2% dros y flwyddyn. Er bod yr enillion absoliwt a ddarparwyd yn gryf, methodd y rhan fwyaf o gronfeydd â chyflawni eu meincnod dros y cyfnod. Roedd hyn yn ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, a'r allwedd oedd canlyniadau ecwiti dan reolaeth actif gymharol wael ac asedau amgen yn cyflawni islaw llawer o'r meincnodau dychwelyd absoliwt a osodwyd. Felly, er nad oedd cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cyrraedd ei meincnod, roedd hyn yn gyffredin o fewn cronfeydd CPLlL a llwyddodd y gronfa i sicrhau enillion gwell na'r cyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

**<u>Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti</u>**

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ecwiti unigol ar 31ain Mawrth 2024:

| | Gwerth Marchnad 31/03/24 £m | Perfformiad 3 Mis % | Perfformiad Blwyddyn % |
|---|---|---|---|
| Black Rock Aquila Life UK Equity | **267.1** | 3.6 | 8.4 |
| Meincnod | | 3.6 | 8.4 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.0** | **+0.0** |
| Black Rock ACS Low Carbon | **203.4** | 9.4 | 24.5 |
| Meincnod | | 9.4 | 24.1 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.0** | **+0.4** |
| Cronfa PPC Emerging Markets | **59.9** | 3.7 | 3.9 |
| Meincnod | | 3.3 | 5.9 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.4** | **-2.0** |
| Cronfa PPC Global Growth | **415.4** | 7.9 | 15.8 |
| Meincnod | | 9.2 | 20.6 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-1.3** | **-4.8** |
| Cronfa PPC Global Opportunities | **434.6** | 8.9 | 19.9 |
| Meincnod | | 9.2 | 20.6 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.3** | **-0.7** |
| **Cronfa PPC Sustainable Active Equity** | **317.1** | 8.1 | d/b |
| **Meincnod** | | 9.2 | d/b |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-1.1** | **d/b** |

Roedd perfformiad o fandadau ecwiti rhestredig byd-eang yn gryf dros Ch1 2024. Roedd hyn yn adlewyrchu cryfder parhaus y farchnad ecwiti, wedi'i yrru gan economi gydnerth yn yr Unol Daleithiau (sy'n ffurfio llawer o fynegeion ecwiti byd-eang) ac optimistiaeth barhaus o ran deallusrwydd artiffisial.

Ar sailk gymharol, perfformiodd y cronfeydd olrhain mynegai gyda BlackRock yn unol â meincnodau, yn ogystal â chronfa ecwiti marchnadoedd datblygol PPC. Fodd bynnag, roedd mandadau ecwiti byd-eang a reolir yn weithredol yn tanberfformio'r mynegai byd-eang, gan fod tanbwysau i'r Unol Daleithiau ac amlygiad i ecwitïau o arddull gwerth yn amharu ar enillion cyffredinol y gronfa. Mae tanberfformiad nodedig o Gronfa Twf Byd-eang PPC ac mae strwythur y gronfa hon yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan PPC.

**<u>Perfformiad Rheolwyr Incwm Sefydlog</u>**

| | **Gwerth Marchnad 31/03/24 £m** | **Perfformiad 3 Mis %** | **Perfformiad Blwyddyn %** |
|---|---|---|---|
| Cronfa PPC Multi Asset Credit | **226.0** | 1.9 | 10.2 |
| Meincnod | | 2.3 | 9.4 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **-0.4** | **+0.8** |
| Cronfa PPC Absolute Return Bond | **412.2** | 2.3 | 6.8 |
| Meincnod | | 1.8 | 7.3 |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.5** | **-0.5** |
| Cronfa PPC Global Credit | 223.0 | 0.3 | d/b |
| Meincnod | | 0.0 | d/b |
| **Perfformiad Cymharol** | | **+0.3** | **d/b** |

Mae'r cronfeydd incwm sefydlog a lansiwyd yn 2021 wedi cael cyfnodau heriol gyda ansefydlogrwydd y farchnad oherwydd ymosodiad Rwsia ar Wcráin a chyfnod ble roedd chwyddiant a chyfraddau llog Banc Lloegr ar ei uchaf ers degawdau. Mae amodau'r farchnad wedi dechrau setlo erbyn hyn ac mae perfformiad y cronfeydd yn agos i'r meincnod.

**<u>Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Eiddo</u>**

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Asedau Eiddo unigol:

| | **Gwerth Marchnad 31/03/24 £m** | **Perfformiad 3 Mis %** | **Perfformiad Blwyddyn %** |
|---|---|---|---|
| UBS | 72.9 | -0.9 | -2.4 |
| Lothbury Property Trust | 51.7 | -2.4 | -8.8 |
| Black Rock Property Fund | 53.5 | -0.2 | -3.3 |
| Threadneedle Property Fund | 34.2 | 0.8 | 0.6 |
| Threadneedle Property Unit Trust | | 0.5 | 0.5 |
| | | | |
| **Meincnod** | | **+0.5** | **-0.7** |

Mae marchnad eiddo'r DU yn parhau i wynebu heriau gan gynnwys galw anwastad, pwysau adbrynu parhaus a chost uchel cyfalaf. Gwelodd mandadau'r Gronfa enillion cymysg, gyda Lothbury yn danberfformiwr nodedig o'i gymharu â'i meincnod.

**<u>Grŵp Partners</u>**

Mae Grŵp Partners yn gyfrifol am reoli buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd y Gronfa.

| | **Gwerth Marchnad 31/03/24 £m** |
|---|---|
| Partners Ecwiti Preifat | 158.6 |
| Partners Isadeiledd | 71.6 |
| **Cyfanswm** | **230.2** |

Mae monitro perfformiad buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn dipyn anoddach nag asedau traddodiadol, megis bondiau wedi'i dyfynnu ac ecwiti. Mae gan gronfeydd ecwiti preifat hyd bywyd penodedig o tua 10-15 mlynedd. Dim ond pan mae asedau unigol yn cael eu gwerthu gellir cadarnhau gwir elw / dychweliadau, ac felly ni ellir asesu gwir berfformiad nes mae'r gronfa wedi cau. Mae rhaglen y Gronfa ar gyfer buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei hadolygu yn flynyddol gan ein hymgynghorwyr, Hymans Robertson ac mi fydd yn cynnwys cronfeydd newydd PPC yn y dyfodol.

## 4. Perfformiad hanesyddol y Gronfa Bensiwn

Cydnabyddir yn gyffredinol bod perfformiad dros gyfnod hirach o amser yn fynegai mwy dilys na blwyddyn unigol oherwydd gall strategaethau a gynllunir ar gyfer perfformiad da yn y tymor hir ddioddef colledion tymor byr o bryd i'w gilydd.

Mae perfformiad buddsoddiadau'r gronfa wedi bod yn is na'r meincnod yn y flwyddyn a thros dair blynedd, yn bennaf oherwydd perfformiad rhai o'r cronfeydd ecwiti, incwm sefydlog ac eiddo, ond ers ei sefydlu, mae'r perfformiad wedi bod yn uwch na'r meincnod, fel y gwelir yn y tabl isod:

| | **1 Mlynedd<br>%** | **3 Blynedd<br>% y.f.** | **Ers cychwyn<br>% y.f** |
|---|---|---|---|
| Cronfa | 11.2 | 6.4 | 7.1 |
| Meincnod | 11.4 | 7.5 | 6.8 |
| **Perfformiad Cymharol** | **-0.2** | **-1.1** | **+0.3** |

Er bod perfformiad 3 blynedd y Gronfa wedi bod y tu ôl i feincnod, roedd y perfformiad yn chwartel uchaf yr holl gronfeydd CPLlL. Mae'r meincnodau a roddir yn heriol iawn (h.y. MSCI AC World) ac mae'r gronfa yn perfformio'n dda o'i gymharu â chronfeydd CPLlL eraill.

## 5. Dyraniad Asedau Strategol

Diweddarwyd dyraniad asedau strategol y Gronfa yn niwedd 2023 ar ôl i'r Panel drafod diweddariad i'r adolygiad a gynhaliwyd yn 2022 a chytunwyd i leihau risg y Gronfa yn rhannol. Mae cynllun wedi'i ddatblygu i symud y Gronfa tuag at y dyraniadau meincnod newydd dros y 12-18 mis nesaf. Bydd buddsoddiadau mewn isadeiledd a dyled breifat yn cynyddu dros amser fel y gelwir yr arian. Gwelodd y Gronfa fuddsoddiadau cychwynnol ar gyfer ecwiti preifat, dyled ac isadeiledd PPC yn ystod chwarter olaf y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a bydd y perfformiad yn cael ei fesur o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

## 6. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.